Dyddiad cyhoeddi Mehefin 2008

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

National Institute for Health and Clinical Excellence

# Defnyddio prawf trwythiad meingefnol i ddewis cleifion a fydd yn cael budd o driniaeth ar gyfer hydroceffalws pwysedd normal

*Mae 'arweiniad Techlechyd' NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio prawf trwythiad meingefnol yn y GIG i brofi pobl ar gyfer hydroceffalws pwysedd normal. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan nad yw'r driniaeth yn cael ei defnyddio'n eang yn y GIG. Nid oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio hydroceffalws pwysedd normal na'r driniaeth yn fanwl – dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi am hynny. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 6.

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd i brofi pobl ar gyfer hydroceffalws pwysedd normal, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf (neu'r gofalwr) yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

## Prawf trwythiad meingefnol i archwilio hydroceffalws pwysedd normal

*Efallai nad hon yw'r unig brawf posibl ar gyfer hydroceffalws pwysedd normal. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau eraill sydd ar gael.*

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch meddyg i gael disgrifiad llawn.

Gall hydroceffalws ddigwydd pan fo gormod o hylif yn yr ymennydd a llinyn y cefn ac o'u cwmpas. Cynhyrchir yr hylif hwn gan yr ymennydd ac fe'i elwir yn hylif cerebrosbinol (a dalfyrrir i CSF yn aml). Fel arfer bydd unrhyw hylif gormodol yn draenio o'r ymennydd a chaiff ei amsugno gan y corff, ond mewn pobl sydd â hydroceffalws mae'r hylif yn cronni ac yn gwasgu ar yr ymennydd. Mae hydroceffalws pwysedd normal yn fath o hydroceffalws lle nad yw'r hylif yn cael ei ddraenio'n arferol ond nid yw o reidrwydd yn cynyddu'r pwysedd yn rhigol yr asgwrn cefn. Yn aml mae'n datblygu mewn cleifion hŷn ac weithiau gall fod yn anodd ei wahaniaethu oddi wrth newidiadau eraill yn yr ymennydd sy'n gysylltiedig ag oedran.

Gellir trin hydroceffalws pwysedd normal drwy osod pibell a elwir yn siynt sy'n draenio'r hylif gormodol. Gellir defnyddio prawf traethiad meingefnol i ddewis y cleifion sydd fwyaf tebygol o gael budd o siynt. Mae'r prawf yn cynnwys gosod nodwydd yn rhan isaf cefn y claf drwy ddefnyddio anesthetig lleol a chwistrellu hylif i'r asgwrn cefn. Mesurir pwysedd yr hylif o amgylch llinyn y cefn cyn, yn ystod ac ar ôl chwistrellu'r hylif. Yna gellir defnyddio'r mesuriadau i benderfynu a ddylid gosod siynt.

Gellir defnyddio profion eraill hefyd, gan gynnwys prawf tap sbinol (a elwir yn brawf tap CSF neu'n brawf pigiad y lwynau cyfaint mawr hefyd). Mae'r prawf yn cynnwys tynnu hylif o'r asgwrn cefn a monitro a yw symptomau'r claf yn gwella dros dro.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod prawf trwythiad meingefnol yn ddewis addas i chi, dylai sicrhau eich bod chi (neu'ch gofalwr) yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y prawf?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar chwe astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Nododd un astudiaeth i 33 allan o 36 o gleifion a nodwyd gan brawf traethiad meingefnol fel cleifion a fyddai'n cael budd tebygol o siynt ddangos gwelliant yn eu cyflwr ar ôl gosod siynt. Fodd bynnag, dangosodd dwy ran o dair o'r cleifion na ragdybiwyd y byddent yn cael budd rywfaint o welliant ar ôl gosod siynt hefyd.

Mewn ail astudiaeth, nodwyd 66 allan o 83 o gleifion gan brawf traethiad meingefnol fel rhai a oedd yn addas ar gyfer gosod siynt. O'r cleifion hyn, dangosodd 39 ohonynt welliant yn eu symptomau blwyddyn neu fwy'n ddiweddarach. O'r 30 o gleifion a gafodd brawf traethiad meingefnol mewn astudiaeth arall, dewiswyd 19 allan o 83 o gleifion ar gyfer gosod siynt a dangosodd 17 ohonynt welliant.

Mewn astudiaeth o 200 o gleifion a gafodd triniaeth siynt ar ôl prawf traethiad meingefnol (lle y dilynwyd cynnydd 155 o gleifion am saith mis), dangosodd y cleifion â'r mesuriadau pwysedd cychwynnol uchaf y gwelliannau gorau.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr y gellir asesu pa mor dda mae'r prawf yn gweithio drwy welliannau yn symptomau'r claf ar ôl triniaeth siynt.

## Risgiau a phroblemau posibl

Ni nodwyd problemau diogelwch mewn pum allan o'r chwe astudiaeth. Yn yr astudiaeth o 200 o gleifion, cafodd 19% gur pen ar ôl y prawf a datblygodd 2% o'r cleifion gyflwr a elwir yn "meningism" yn Saesneg, sef llid y meinweoedd sy'n diogelu'r ymennydd a llinyn y cefn.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr y gallai problemau posibl gynnwys haint, cur pen ar ôl y driniaeth, gwaedu, poen, a niwed i wreiddiau'r nerfau.

## Rhagor o wybodaeth am hydroceffalws pwysedd normal

Gall Galw Iechyd Cymru ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan cychwyn da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

National Institute for
Health and Clinical Excellence

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'Prawf traethiad meingefnol ar gyfer archwilio hydroceffalws pwysedd normal'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael hefyd ar www.nice.org.uk/HTG169*

*Gallwch archebu copïau wedi'u hargraffu o'r daflen hon o gyhoeddiadau NICE (ffoniwch 0845 003 7783 neu anfonwch neges e-bost i publications@nice.org.uk a dyfynnwch y cyfeirnod N1647).*

*Rydym yn annog sefydliadau'r sector gwirfoddol a sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-7835-9 N1647 Meh 08

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2008. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of the Institute.